OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2014 Rhif 1208 (Cy. 124)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Traffordd yr M4 (Cyffordd 38 (Margam) i Gyffordd 41 (Pentyla), Castell-nedd Port Talbot) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2014

Gwnaed	*6 Mai 2014*
Yn dod i rym	*12 Mai 2014*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darnau perthnasol o Draffordd Llundain – De Cymru (yr M4) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y draffordd"), wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarnau penodedig o'r draffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arnynt.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Enwi, Dehongli a Chychwyn

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 12 Mai 2014 a'i enw yw Gorchymyn Traffordd yr M4 (Cyffordd 38 (Margam) i Gyffordd 41 (Pentyla), Castell-nedd Port Talbot) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2014.

2.—(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw'r cyfnod hwnnw sy'n dechrau am 20:00 o'r gloch ar 12 Mai 2014 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr "y darnau o'r draffordd" ("*the lengths of the motorway*") yw'r darnau hynny o'r draffordd rhwng Cyffordd 38 (Margam) a Chyffordd 41 (Pentyla) ym Mwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot, a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl

neu'r Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

Gwaharddiad

3. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 4, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd ar y darnau o'r draffordd a bennir yn yr Atodlen.

Cymhwyso

4. Ni fydd darpariaethau erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y gwaharddiad y maent yn cyfeirio ato yn weithredol.

Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn

5. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 6 Mai 2014

RICHARD MORGAN
Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

(1) 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26), adran 1(1) ac Atodlen 1.
(2) Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

YR ATODLEN

Y darn o brif gerbytffordd y draffordd tua'r gorllewin sy'n ymestyn o drwyniad ffisegol y ffordd ymadael tua'r gorllewin wrth Gyffordd 38 hyd at drwyniad ffisgeol y ffordd ymuno tua'r gorllewin wrth Gyffordd 41.

Y darn cyfan o'r ffordd ymuno tua'r gorllewin wrth Gyffordd 39 (Y Groes).

Y darn cyfan o'r ffordd ymuno tua'r gorllewin wrth Gyffordd 40 (Tai-bach).

Y darn o brif gerbytffordd y draffordd tua'r dwyrain sy'n ymestyn o drwyniad ffisegol y ffordd ymadael tua'r dwyrain wrth Gyffordd 41 hyd at drwyniad

ffisegol y ffordd ymuno tua'r dwyrain wrth Gyffordd 38.

Y darn cyfan o'r ffordd ymuno tua'r dwyrain wrth Gyffordd 40.